**Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru**

**Cyfarfod rhithwir: Cyfarfod dros Microsoft Teams**

**Dydd Iau 18 Mawrth**

## Cofnodion

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Mark Drakeford AS | Prif Weinidog Cymru (Cadeirydd) |
| Jane Hutt AS | Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip |
| Y Gwir Anrh Simon Hart AS y DU | Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Louise Parry | Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Dr Ann White | Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Amy Rees | Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Prawf a Chymru |
| Chris Jennings | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |
| Asim Hafeez | Dirprwy Gyfarwyddwr, Uned Gwell Rheoleiddio, Trawsbynciol, Datganoli a Chymru, y Swyddfa Gartref |
| Reg Kilpatrick | Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cydgysylltu Argyfwng COVID-19 |
| Karin Phillips | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Siân Brown | Uwch-reolwr y Tîm Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Catrin Dowling | Pennaeth Troseddau a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| James Gerard | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Cyfiawnder a Datganoli |
| Chris Roberts | Pennaeth Gwyddorau Ymddygiadol (Iechyd COVID-19) |
| Jayne Phillips | Tîm Troseddau a Chyfiawnder |
| Leanne Lewis | Tîm Troseddau a Chyfiawnder |
| Hannah Packham-Smith | Tîm Troseddau a Chyfiawnder |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Jeff Cuthbert | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Siân Curley | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Arfon Jones | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Alun Michael | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Emma Wools | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Lee Jones | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Cerith Thomas | Swyddog Cyswllt Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| Claire Parmenter | Prif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Dyfed Powys |

| | |
|---|---|
| Pam Kelly | Prif Gwnstabl Heddlu Gwent |
| Carl Foulkes | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Tracey Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Jon Drake | Cyfarwyddwr Uned Atal Trais Cymru |
| Chris Llywelyn | Prif Weithredwr CLlLC |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai CLlLC |
| Ella Rabaiotti | Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Steve Thomas | Uwch-arolygydd Dros Dro, Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Helen Hill | Gweinyddwr Uned Gyswllt yr Heddlu |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Vaughan Gething AS | Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Andrew Goodall | Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Tracey Burke | Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Tracey Breheny | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Camddefnyddio Sylweddau, Busnes Corfforaethol a Gweinidogol |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |

| **Tabl Camau Gweithredu (Gan gynnwys camau hanesyddol a chamau newydd)** | |
|---|---|
| **<u>Cwestiwn y Cyflwyniad Thematig:</u>** Fel un gwasanaeth cyhoeddus, sut y bydd pob partner yng Nghymru yn delio â'r heriau ehangach wrth i ni ddod allan o'r pandemig? | |
| Mae angen cynnal sgyrsiau gonest am gyllid rhaglenni cyn gynted â phosibl er mwyn helpu'r Heddlu a phob partner arall i ystyried sut y gellir rheoli unrhyw leihad mewn cyllidebau. | |
| **Camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod** | |
| 1) Chris Roberts i drafod ymhellach â Jon Drake er mwyn ystyried y potensial i ddatblygu adnoddau a gallu dadansoddol rhwng yr Uned Atal Trais a Gwasanaeth Gwybodaeth a Chynghori Llywodraeth Cymru, gan gysylltu hefyd â'r Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru. | |
| 2) Chris Roberts i rannu sleidiau'r cyflwyniad a rhannu gwaith ymchwil ar fynd i'r afael â chamwybodaeth â'r Prif Gwnstabl Vaughan. | Cwblhawyd |
| 3) Dylid ystyried sut y gellir symud o drefniadau'r Grŵp Cydgysylltu Strategol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o ystyriaeth ehangach o drefniadau Fforwm Cydnerthedd Lleol. | |
| 4) Ailgyflwyno'r broblem camddefnyddio sylweddau gerbron y Bwrdd Plismona a Phartneriaeth yn dilyn etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai. | |

## 1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Jane Hutt bawb a oedd yn bresennol ac arweiniodd y cyfarfod tan i Brif Weinidog Cymru, Mark Drakeford ymuno ychydig cyn Eitem 2.

1.2 Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod a chytunwyd y byddai swyddogion yn mynd i'r afael ag unrhyw gamau gweithredu a godwyd yn y papurau briffio a rannwyd neu a nodwyd yn ystod y cyfarfod, y tu allan i'r cyfarfod ac yn adrodd arnynt yn y cyfarfod nesaf.

1.3 Tynnodd y Comisiynydd Michael, ar ran Plismona yng Nghymru, sylw at y nifer cynyddol o wylnosau a phrotestiadau a gynhaliwyd yn ardaloedd yr heddluoedd dros y misoedd diwethaf. Roedd y rhain yn cynnwys protestiadau o blaid Mae Bywydau Du o Bwys yn dilyn marwolaeth George Floyd a'r gwylnosau mwy diweddar er cof am Sarah Everard a Wenjing Lin fel rhan o ymgyrch Adennill y Strydoedd.

1.4 Canmolodd y Comisiynydd Michael y ffordd y gwnaeth swyddogion ddelio â'r dasg gymhleth o reoli'r digwyddiadau, sy'n anghyfreithlon o dan y rheoliadau iechyd y cyhoedd presennol, gan barchu angen y cyhoedd i gydsefyll a dangos cefnogaeth. Mae rheoli'r protestiadau yn ystod pandemig wedi ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod, a gofynnodd y Prif Gwnstabl Vaughan am i Lywodraeth Cymru a phob partner gydweithio i rannu negeseuon ar y cyd.

1.5 Nododd Prif Weinidog Cymru y ffordd ragorol yr oedd Plismona yng Nghymru wedi plismona'r digwyddiadau hyn ac yr oedd pob heddlu yng Nghymru wedi delio â gwrthdystiadau Mae Bywydau Du o Bwys a rhannu negeseuon.

## 2. Sylwadau gan y Gwir Anrh Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

2.1 Dywedodd Simon Hart fod trafodaethau cadarnhaol wedi'u cynnal rhwng Kit Malthouse, y Gweinidog Plismona a Gillian Keegan, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Brentisiaethau a Sgiliau mewn perthynas â'r Ardoll Brentisiaethau. Nodwyd bod trafodaethau'n parhau i fynd rhagddynt, ac mai'r gobaith oedd y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol mewn sefyllfa i roi rhagor o eglurder yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd, neu cyn hynny lle bo modd.

2.2 Bydd Gwersyll Penalun yn Sir Benfro, a ddefnyddiwyd i roi llety i lawer o geiswyr llocher am nifer o fisoedd, yn cael ei gau at y diben hwn a'i drosglwyddo'n ôl i ddwylo'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Er y cydnabyddir na fu'n sefyllfa hawdd i neb, canmolwyd yr holl bartneriaid am gydweithio i roi sicrwydd i'r gymuned leol ac am y gofal a roddwyd i'r unigolion yn y gwersyll.

2.3 Cydnabuwyd y diffyg cytundeb rhwng Heddlu Dyfed-Powys a'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â chyllid yr heddlu ar gyfer Gwersyll Penalun, a bydd y Swyddfa Gartref a Heddlu Dyfed-Powys yn mynd ar drywydd y mater hwn yn uniongyrchol.

2.4 Diolchodd Prif Weinidog Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei ddiweddariad, a nododd fod y Bwrdd yn edrych ymlaen at glywed rhagor o wybodaeth am yr Ardoll Brentisiaethau pan fo ar gael.

**3. Adnoddau'r Heddlu mewn Amgylchedd Datganoledig: Dysgu o'r Pandemig – Cyflwyniad Thematig** (Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Michael a'r Prif Gwnstabl Kelly)

3.1 Rhoddodd y Comisiynydd Michael a'r Prif Gwnstabl Kelly gyflwyniad, ac roedd papur ategol wedi'i rannu cyn y cyfarfod er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth gliriach o'r cyfraniad ym maes Comisiynu a wnaed gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu mewn perthynas â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

3.2 Cydnabuwyd bod y 12 mis diwethaf wedi bod yn anodd i bob partner a staff rheng flaen, ond bod yr ymdrechion parhaus hyn wedi arwain at fuddiannau sylweddol.

3.3 Defnyddiwyd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru fel enghraifft gadarnhaol o waith partneriaeth yn ystod y pandemig. Ymunodd y Gweinidog Plismona â'r cyfarfod diweddaraf yn rhithwir, a chydnabu'r gwaith gwych a wnaed yng Nghymru gan bartneriaid.

3.4 Nod y cyflwyniad oedd dathlu'r cydberthnasau da rhwng partneriaid yng Nghymru yn ystod cyfnod o bwysau, a'r modd yr oedd cyfathrebu clir a gonest rhwng gweinyddiaethau gwahanol wedi galluogi partneriaid i gydweithio, gan ddeall yn llawer mwy clir yr heriau a'r materion o ran adnoddau mewn ffordd na welwyd ei thebyg o'r blaen.

3.5 Nododd y Prif Gwnstabl Kelly mai'r her yw cynnal y momentwm a datblygu dyhead a rennir ar gyfer un Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru.

3.6 Caiff etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu cynnal ym mis Mai, dan gyfyngiadau parhaus COVID-19. Cadarnhawyd bod grŵp Aur yr Heddlu wedi'u sefydlu i fonitro a rheoli'r etholiadau, ar y cyd ag awdurdodau lleol.

3.7 Mae'r heddlu yn rhagweld y bydd rhagor o brotestiadau dros y misoedd nesaf (gyda chyfuniad o resymau a chymelliadau yn arwain at weithredu); cynnydd yn nifer yr achosion o droseddu wrth i dafarndai a chlybiau ailagor, ac achosion posibl o drais wrth i'r diwylliant yfed ddychwelyd. Yn fwy nag erioed, bydd y cyhoedd yn disgwyl arweinyddiaeth a rennir.

3.8 Fel un gwasanaeth cyhoeddus, sut y bydd partneriaid yng Nghymru yn delio â'r heriau ehangach, gan gynnwys y cynnydd yn nifer yr achosion o droseddu, diweithdra, salwch meddwl, cam-drin domestig, a chyfyngiadau parhaus ar ryddid pobl, ac yn gwneud hynny'n deg mewn ffordd gydweithredol?

3.9 Drwy gydol y pandemig, mae pob heddlu wedi gweld ei fod yn gweithio'n agosach gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ac annatganoledig a'u bod mewn cysylltiad parhaus â'u hawdurdodau lleol a'u cynghorwyr lleol.

3.10 Ymhlith y buddiannau a welwyd yn sgil y pandemig roedd gwaith yn ymwneud â gweithluoedd cynrychioliadol, a thrafodaethau drwy'r Bwrdd hwn a arweiniodd at

newid ystyrlon gwirioneddol, nid yn unig yn yr Heddlu ond yn Llywodraeth Cymru hefyd.

3.11 Diolchwyd i Lywodraeth Cymru am gadarnhau cymorth ariannol llawn parhaus ar gyfer y 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol. Nodwyd bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol enfawr ar blismona lleol a'r gwaith o ymgysylltu â chymunedau.

3.12 Wrth symud ymlaen, gofynnwyd am i sgyrsiau gonest am gyllid rhaglenni gael eu cynnal cyn gynted â phosibl er mwyn helpu'r Heddlu a phartneriaid eraill i gynllunio'n fwy effeithlon yn y tymor canolig a'r hirdymor.

3.13 O safbwynt plismona, mae'r Rhaglen ar gyfer Recriwtio Mwy o Swyddogion yr Heddlu yn golygu bod y Swyddfa Gartref yn disgwyl gostyngiad o 20% yn nifer yr achosion o droseddu, ond mae pryderon gwirioneddol am hirhoedledd, gydag ansicrwydd ynglŷn â chyllid llawn ar gyfer y niferoedd ychwanegol mewn blynyddoedd i ddod a goblygiadau ar ôl i'r rhaglen gyllido tair blynedd ddod i ben.

3.14 Gorau po cyntaf y caiff heddluoedd wybod am newidiadau i gyllidebau, er mwyn iddynt allu cynllunio'n effeithiol. Mae'r heddluoedd eisoes yn rhan o drafodaethau ynglŷn â'r Adolygiad Cynhwysfawr nesaf o Wariant.

3.15 O ran yr ymgyrch i recriwtio mwy o swyddogion yr heddlu, mae'r heddluoedd yn recriwtio'n gyflym, ond nodwyd eu bod hefyd yn gweld bod swyddogion mwy profiadol yn gadael yn gynt na'r disgwyl, gan arwain at weithlu iau a llai profiadol ac, felly, mae angen ac awydd gwirioneddol i barhau â gwaith partneriaeth arloesol.

3.16 Tynnodd y Comisiynydd Michael sylw at waith comisiynu Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a'r buddsoddiad a wneir yn y gymuned unwaith eto. Caiff hyn ei ystyried ymhellach yn y papur a ddosbarthwyd i ategu'r eitem hon. Mae'r papur yn tynnu sylw at gyfraniad Plismona yng Nghymru at amcanion polisi Llywodraeth Cymru.

3.17 Gweithiodd timau gorfodi ar y cyd yn dda yn ystod COVID-19, a gobeithiwyd y byddai cynlluniau tebyg yn parhau yn y dyfodol.

3.18 Nodwyd bod Rhaglen Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu Cymru wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar y gymuned. Mae'r rhaglen yn cydweithio â phob ysgol yng Nghymru, a gall ddarparu rhagor o gymorth lle mae disgyblion yn wynebu mwy o risg, yn ogystal â chynnig darpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol.

3.19 Canolbwyntiodd trafodaethau ar dryloywder cyllid a phwysigrwydd deialog. Nodwyd bod cynnydd yn cael ei wneud, drwy gydweithio a chynnal trafodaethau pwysig, mewn perthynas â Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol a chyflwyno parthau 20mph/50mph. Cydnabuwyd nad oedd yr heddlu na Llywodraeth Cymru am droseddoli pobl yn anfwriadol mewn perthynas â'r naill bolisi na'r llall, ac mae hynny'n golygu ei bod yn hanfodol bod y trefniadau ar gyfer y rhaglen wedi'u sefydlu'n dda cyn ei rhoi ar waith.

3.20 Yn ystod y cyflwyniad, rhestrodd y Prif Gwnstabl Kelly bob un o'r meysydd allweddol y mae plismona gweithredol yn parhau i fynd i'r afael â nhw yn ystod y pandemig, gan nad yw plismona rheng flaen wedi dod i ben.

3.21 Croesawyd cyllid ar gyfer yr ystorfa ganolog o dan yr Hyb Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Mae Plismona yng Nghymru yn cefnogi'r angen i ddysgu o bob adolygiad mewn ffordd gydgysylltiedig.

3.22 Daeth y cyflwyniad i ben drwy grynhoi bod angen i sgyrsiau gonest am gyllid gael eu cynnal ar y cam cynharaf posibl, a bod angen i bartneriaid, gan gydweithio fel un gwasanaeth cyhoeddus, fanteisio ar adnoddau a dulliau cyflawni a deall heriau ei gilydd.

3.23 Ategodd y Comisiynydd Jeff Cuthbert gynnwys y cyflwyniad. Ailadroddodd y pwyntiau a wnaed, ond ychwanegodd fod Gwent wedi bod yn ymgysylltu'n weithredol â chymunedau drwy gyswllt rhithwir drwy gydol y pandemig. Yn y dyfodol, byddai'r heddlu'n parhau i gynnal cyfarfodydd rhithwir mewn ymgais i leihau'r angen i deithio, gan anelu at ddyfodol gwyrddach.

3.24 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Comisiynydd Michael a'r Prif Gwnstabl Kelly am y cyflwyniad, ac am y cyswllt uniongyrchol ag arweinwyr Plismona yng Nghymru ac arweinwyr Grŵp Prif Swyddogion Cymru drwy gydol y pandemig. Er bod llawer o wersi i'w dysgu wrth i ni symud ymlaen i normal newydd, cydnabuwyd bod cyfathrebu wedi bod yn werthfawr tu hwnt.

## 4. Effaith COVID-19 ar Ddiogelwch Cymunedol (Chris Roberts)

4.1 Rhoddwyd cyflwyniad PowerPoint, a gafodd ei rannu â phob aelod wedi hynny.

4.2 Esboniodd Chris fod y dadansoddiad yn seiliedig ar bapurau SAGE yn bennaf, a chynigiodd nifer o fyfyrdodau i'r Bwrdd, gan gynnwys pwysigrwydd cydberchenogaeth a bod plismona drwy gydsyniad wedi bod yn hollbwysig i ymateb y cyhoedd.

4.3 Atgoffwyd y bwrdd fod COVID-19 wedi'i alw'n 'wastatäwr mawr' i ddechrau, ond bod tystiolaeth wedi dangos yn glir nad oedd hyn yn wir, gyda charfannau penodol yn ein cymunedau yn wynebu effeithiau anghymesur. Fel Llywodraeth, bydd angen i Weinidogion barhau i ystyried sut yr eir i'r afael â hyn.

4.4 Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio, nodwyd y dylai gwaith cyfathrebu ganolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd ac, yn hollbwysig, pam y mae'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud. Mae gwella dealltwriaeth y cyhoedd yn hollbwysig i annog cydymffurfiaeth.

4.5 Bydd yr angen hwn am eglurder a chymorth cymdeithasol yn bwysicach fyth wrth i ni symud ymlaen, ac mae'n debygol y bydd angen cyfyngiadau i fynd i'r afael â

brigiadau o achosion lleol, o bosibl mewn ardaloedd â lefelau uwch o amddifadedd economaidd-gymdeithasol.

4.6 Gan ategu'r cyflwyniad blaenorol, cododd Chris nifer o heriau tymor hwy, gan gynnwys pwysau cyllidebol, oedi yn y system Cyfiawnder Troseddol, a lefelau uwch tebygol o ddiweithdra, gyda phatrymau cymdeithasol a daearyddol.

4.7 Croesawodd Chris Roberts y cyfle i drafod ymhellach â Jon Drake i ystyried y posibilrwydd o wneud rhagor o waith dadansoddi.
**Cam Gweithredu 1: Chris Roberts i drafod ymhellach â Jon Drake er mwyn ystyried y potensial i ddatblygu adnoddau a gallu dadansoddol rhwng yr Uned Atal Trais a Gwasanaeth Gwybodaeth a Chynghori Llywodraeth Cymru, gan gysylltu hefyd â'r Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru**

4.8 Tynnodd Chris sylw at nifer o Weminarau a fydd yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd Paul Morris y bydd ef, ynghyd â'r Uwch-arolygydd Nigel Harrison a'r Athro Clifford Stott, Prifysgol Keele, yn rhan o'r weminarau ar 31 Mawrth, pan fydd materion yn ymwneud â phlismona a chyfiawnder yn cael eu hystyried.

4.9 Gofynnodd y Prif Gwnstabl Vaughan a oedd unrhyw waith ymchwil wedi'i wneud mewn perthynas â mynd i'r afael â chamwybodaeth. Cadarnhaodd Chris fod cryn waith ymchwil wedi'i wneud yn y maes hwn, ac y byddai'n hapus i rannu rhagor o wybodaeth ag aelodau'r bwrdd.

**Cam Gweithredu 2: Chris Roberts i rannu sleidiau'r cyflwyniad a rhannu gwaith ymchwil ar fynd i'r afael â chamwybodaeth â'r Prif Gwnstabl Vaughan.**

## 5 Materion i'w huwchgyfeirio o gyfarfod Plismona yng Nghymru

5.1 Dywedodd y Comisiynydd Michael, yn ogystal â gwrthdystiadau, fod angen diolch i'r Comisiynydd Cuthbert a'r Dirprwy Weinidog am eu hymdrechion a'u gwaith caled yn ystod y trafodaethau parhaus am Ddiddymu Amddiffyniad Cosb Resymol yn y Ddeddf Plant. Roedd yn hollbwysig bod yr holl drefniadau ar waith ymhell cyn i'r newid yn y gyfraith ddod i rym.

5.2 Croesawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Hyb Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yr ystorfa.

5.3 Wrth edrych i'r dyfodol, nododd Mr Michael fod angen i'r ffordd y mae partneriaid yn symud o'r Grŵp Cydgysylltu Strategol i'r Grŵp Cydgysylltu Rhanbarthol gael ei hystyried fel rhan o asesiad ehangach o drefniadau Fforwm Cydnerthedd Lleol fel eitem ar yr agenda yn y dyfodol.
**Cam Gweithredu 3: Dylid ystyried sut y gellir symud o drefniadau'r Grŵp Cydgysylltu Strategol i'r Grŵp Cydgysylltu Rhanbarthol fel rhan o ystyriaeth ehangach o drefniadau Fforwm Cydnerthedd Lleol.**

## 6 Diweddariadau gan bartneriaid yn ôl eithriad:

### 6a. Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

**Heddlu Dyfed-Powys**

6.1 Roedd Prif Gwnstabl Dros Dro Parmenter yn ddiolchgar am yr adborth cadarnhaol a gafwyd am y ffordd yr ymdriniwyd â diogelwch cymunedol yng Ngwersyll Penalun, ac roedd yn awyddus i nodi, o ystyried yr amgylchiadau anodd, bod pob un o'r swyddogion dan sylw wedi cydweithio â phartneriaid i sicrhau'r gofal gorau i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r gymuned leol.

6.2 Dywedodd Prif Gwnstabl Dros Dro Parmenter ei bod yn galonogol gweld bod swyddogion wedi bod yn rhan o'r rhaglen frechu, gyda brechlynnau wrth gefn yn cael eu darparu lle y bo'n bosibl.

6.3 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i Brif Gwnstabl Dros Dro Parmenter am ei diweddariad, a dywedodd fod yr heddlu wedi'i ganmol yng nghyfarfod y Ffoaduriaid a'r Ceiswyr Lloches yn gynharach yn y dydd am ei ymateb i'r sefyllfa yng Ngwersyll Penalun a'r ffordd yr oedd Sir Benfro wedi camu i'r adwy i gynnig noddfa i'r rhai dan sylw.

**Heddlu Gwent**

6.4 Cydnabu'r Comisiynydd Jeff Cuthbert fod y gwrthdystiadau a'r gwylnosau er cof am Sarah Everard wedi'u cynnal yn heddychlon yn ardal Gwent.

6.5 Nodwyd y cytunwyd ar gynnydd o 5.49% ym mhraesept Gwent (gydag annedd band D nodweddiadol yn talu £15 y flwyddyn yn fwy)

**Heddlu Gogledd Cymru**

6.6 Diolchodd Prif Gwnstabl Foulkes i Iechyd Cyhoeddus Cymru am ei gymorth o ran darparu profion llif unffordd i Swyddogion yr Heddlu, a oedd yn profi'n llwyddiannus ac yn rhoi tawelwch meddwl i'r staff. Gobeithiwyd y byddai hyn yn cael ei gyflwyno i bob heddlu yng Nghymru yn fuan.

6.7 Diolchodd Prif Gwnstabl Foulkes i bartneriaid lleol yn dilyn y llifogydd diweddar yng Ngogledd Cymru.

6.8 Dywedodd y Comisiynydd Jones fod swyddogion yng Ngogledd Cymru wedi defnyddio Naloxone yn llwyddiannus i achub bywyd dau unigolyn, a gobeithiwyd y byddai'n yn cael ei gyflwyno i rannau eraill o Gymru yn fuan.

6.9 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Comisiynydd am y diweddariad cadarnhaol hwn.

**Heddlu De Cymru**

6.10 Rhoddodd y Comisiynydd Emma Wools ddiweddariad ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen VAWDASV, sydd wedi helpu i sefydlu tîm integredig, sy'n cynnwys yr Heddlu, yr Uned Atal Trais a phartneriaid, i gefnogi'r broses o gysoni'r Strategaeth a dull Glasbrint, yn unol â chyflwyniad blaenorol a wnaed i'r Bwrdd

hwn, yn ogystal â darparu ffocws, trefniadau llywodraethu cyffredin a chyllid a rennir ar gyfer y tîm hwn.

6.11 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r heddluoedd am y diweddariadau yn yr adroddiadau, a hefyd am y ffordd sensitif yr oeddent wedi plismona gwrthdystiadau.

**6b. CLlLC**

6.12 Nododd y Prif Weithredwr Chris Llewellyn bwysigrwydd y Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i arwain ar y cyd gan CLlLC a Plismona yng Nghymru.

6.13 Adleisiodd Mr Llewellyn ei fod wedi gwerthfawrogi'r cyfathrebu â Gweinidogion Cymru a CLlLC yn benodol ar faterion diogelwch cymunedol. Cydnabuwyd bod partneriaid wedi cydweithio'n effeithiol iawn.

6.14 Wrth symud ymlaen, dywedodd Mr Llewellyn fod angen dysgu gwersi ac ystyried pa mor dda yr oedd timau gorfodi ar y cyd wedi cydweithio a phwysigrwydd staff gorfodi awdurdodau lleol. Pwysleisiodd fod angen adolygu gwydnwch swyddogaethau safonau masnach ac iechyd yr amgylchedd am fod adnoddau yn y meysydd hyn wedi bod dan bwysau.

**6c. Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru**

6.15 Croesawodd y Dirprwy Weinidog Amy Rees i'r bwrdd, ac esboniwyd y byddai Amy yn rhoi diweddariad yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

6.16 Nodwyd bod Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru wedi esblygu o fod yn gyfarfod i godi materion i fod yn gyfranogwr gweithredol yn y broses o oruchwylio Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

6.17 Mae rheithgorau yng Nghymru ymhell ar y blaen i'r rhai yn Lloegr.

6.18 Mae Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru wedi cytuno ar Ddatganiad o Ddiben, a oedd wedi'i ddosbarthu i'r Bwrdd hwn, ac wedi datblygu pedwar maes ffocws:

- Deall a mynd i'r afael â natur agored i niwed a/neu anghenion cymhleth lluosog troseddwyr.
- Deall a mynd i'r afael â natur agored i niwed ac anghenion dioddefwyr a thystion ar bob cam o'u profiad yn y system cyfiawnder troseddol.
- Defnyddio tystiolaeth i ddeall achosion a ffactorau ysgogi ymddygiad troseddol, datblygu dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n bodoli eisoes a dylanwadu ar bolisi sy'n lleihau nifer yr achosion o droseddu ac yn sicrhau newid cadarnhaol.
- Rhoi dull 'un gwasanaeth cyhoeddus' ar waith yng Nghymru i fynd ar drywydd cydraddoldeb hiliol, sef mater yr oedd Amy wedi ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn ei gylch ar ran Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

6.19 Dywedodd Amy fod y Bwrdd a'r cynnydd a wnaed yng Nghymru wedi gwneud cryn argraff ar y Gweinidog Plismona pan ymunodd â'r cyfarfod yn ddiweddar.

**6d. Yr Uned Atal Trais**

6.20 Rhannodd Jon Drake adroddiad ategol ar y prif bwyntiau, ond tynnodd sylw at y tair blaenoriaeth:

- *Trais Difrifol ymhlith Pobl Ifanc*
- *Trais sy'n gysylltiedig â chamfanteisio troseddol a throseddau cyfundrefnol difrifol*
- *Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)*

**6e. Iechyd Cyhoeddus Cymru**

6.21 Diolchodd Jo Hopkins i bob aelod o'r bartneriaeth, gan nodi bod cydberthnasau agos wedi dyfnhau yn ystod y cyfnod hwn.

6.22 Roedd y diweddariad a ddosbarthwyd yn cynnwys gwybodaeth am Hybiau Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Esboniodd Jo y byddai diweddariadau pellach ar y system Cyfiawnder Troseddol ehangach, gan gynnwys y gwasanaeth Carchardai a Phrawf, yn cael eu rhyddhau yr wythnos ganlynol, gan edrych ar y DU a thu hwnt

**6f. Y Swyddfa Gartref**

6.23 Diolchodd Asim Hafeez i'r Prif Gwnstabl Dros Dro Parmenter, y Prif Gwnstabl Collins, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Llywelyn a nifer o bartneriaid, gan gynnwys Alyson Francis a Jo Hopkins, am eu help i reoli materion yn ymwneud â Gwersyll Penalun.

6.24 Nodwyd, er y deellir nad yw pawb yn cytuno â'i gilydd, bod pethau "yn wahanol yng Nghymru", a bod partneriaid wedi cydweithio er budd defnyddwyr y gwasanaeth a'r gymuned leol.

6.25 Dywedodd Asim ei fod wedi mynychu cyfarfod â Liane James a Sarah Cooper ynglŷn â'r Hyb Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, a bod gwaith yn mynd rhagddo i ystyried a ellir defnyddio Cymru fel un o nifer o gynlluniau peilot yn y DU mewn perthynas ag Adolygiadau o Arfau Ymosodol a Dynladdiad.

6.26 Mae bron blwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi adolygiad Windrush y Swyddfa Gartref. Bydd papur yn cael ei ryddhau yn ystyried y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag argymhellion Wendy Williams a'r newid diwylliannol a welwyd yn sgil yr adolygiad.

6.27 Bydd Digwyddiad Cardiau Post yn cael ei gynnal ar 19/03/21, lle y bydd Paul Morris yn siarad ar ran Plismona yng Nghymru. Bydd y digwyddiad yn ystyried Plismona ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig gyda 100 o swyddogion y Swyddfa Gartref yn bresennol, gyda'r nod o helpu i feithrin dealltwriaeth ehangach o'r gwahanol gymhlethdodau a heriau yn y gweinyddiaethau gwahanol.

6.28 Talwyd teyrnged i'r Comisiynydd Arfon Jones, na fydd yn sefyll yn yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai. Diolchodd Asim i Mr Jones am ei gyfraniad a'i gymorth.

6.29 Ategodd pob aelod o'r Bwrdd y diolch a estynnwyd i'r Comisiynydd Jones, gan ddymuno'n dda iddo ar gyfer ei ymddeoliad.

**6g. <u>GWASANAETH CARCHARDAI A PHRAWF EI MAWRHYDI</u>**

6.30 Esboniodd Chris Jennings mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn Ewrop i gynnig y brechlyn i garcharorion, yn unol â chanllawiau'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, a bod y rhaglen frechu yn mynd yn dda, gyda sefydliadau'n dechrau ystyried ailgyflwyno rhaglenni a llacio rhai mesurau.

6.31 Mae rhywfaint o waith prawf wyneb yn wyneb yn dechrau cael ei ailgyflwyno erbyn hyn, lle y bo'n bosibl.

6.32 Cafwyd adborth cadarnhaol ynglŷn â'r tagiau sobrwydd gyda diolch gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, a ddywedodd fod y tagiau'n eu helpu i roi'r gorau i yfed.

6.33 Mae ymchwil wedi'i gwneud i'r safle ar gyfer y Ganolfan Breswyl arfaethedig i Fenywod. Mae rhywfaint o wrthwynebiad yn lleol, ond mae'r gwaith ymgysylltu yn mynd rhagddo, gyda'r gobaith o ddatblygu cynlluniau yn fuan.

6.34 Dywedodd y Dirprwy Weinidog ei bod yn falch o glywed bod y dull Iechyd y Cyhoedd wedi cael effaith gadarnhaol.

**6h. <u>Llywodraeth Cymru</u>**

6.35 Dosbarthwyd papur briffio Llywodraeth Cymru cyn y cyfarfod.

## 7 Unrhyw Fater Arall

### 7a. Yr Uned Cyfiawnder Troseddol

7.1 Diolchodd y Comisiynydd Michael i Amy Rees am ei diweddariad ar Gyfiawnder Troseddol a datblygiad y Bwrdd. Esboniodd Mr Michael fod Comisiynwyr yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yr hyn y byddai ei angen er mwyn datganoli Cyfiawnder Troseddol yn y dyfodol. Dywedodd Mr Michael y byddai'r pedwar Comisiynydd yng Nghymru o blaid datganoli Cyfiawnder Troseddol, p'un a fyddai hynny yn y byrdymor neu'r tymor hwy

7.2 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Comisiynwyr am eu cymorth a dywedodd y byddai'r Cwnsler Cyffredinol yn cyhoeddi papur ar y pwnc hwn yn y dyfodol agos.

**7b. Camddefnyddio Sylweddau**

7.4 Gofynnodd Prif Gwnstabl Kelly a ellid adfer camddefnyddio sylweddol ar agenda'r Bwrdd Plismona ar ôl yr etholiadau, fel na fyddai'r momentwm yn cael ei golli.

**Cam Gweithredu 4: Ailgyflwyno'r broblem camddefnyddio sylweddau gerbron y Bwrdd Plismona a Phartneriaeth yn dilyn etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Mai.**

**8 Cam Gweithredu / Mater – Diweddariad (Cadeirydd)**

8.1 Cafodd y rhestr o gamau gweithredu a'r diweddariadau eu rhannu cyn y cyfarfod er gwybodaeth. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru ac Uned Gyswllt yr Heddlu yn parhau i fynd ar drywydd y camau gweithredu a'r materion y tu hwnt i'r cyfarfod, ac yn cyflwyno adroddiad yn y cyfarfod nesaf. Ni chodwyd unrhyw faterion pellach.

8.2 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i bawb am fod yn rhan o'r cyfarfod, ac am eu cyfraniad.

**9 Dyddiad ac amser y cyfarfodydd nesaf**

Dydd Iau 24 Mehefin – 14:30-16:30
Dydd Iau 23 Medi – 13:30-15:30
Dydd Iau 2 Rhagfyr – 13:30-15:30